AR WERTH DRWY GYTUNDEB PREIFAT

**Wedi ei gyflwyno'n dda, bwthyn traddodiadol dengar, tebyg i fwthyn pysgotwr, a gafodd ei estyn a'i wella, ynghŷd â gardd a man parcio preifat.**

**TROED-Y-RHIW**
**Y BORTH SY24 5NR**



Wedi ei leoli ar dir uchel mewn ardal breswyl tua 200m o'r traeth ac yn agos i safle bysiau. Mae prif ran y pentref tua ½ milltir i ffwrdd.

<u>*Mae'r gwerthwr yn hoffi:*</u>

Yr estyniad cefn lle y mae'r gegin a'r ystafell ymolchi

Yr ardd breifat

<u>*Mae'r asiant yn hoffi:*</u>

Cymeriad hen a hynod y tŷ

Yr awyrgylch clyd

**1 Chalybeate Street, Aberystwyth, Ceredigion. SY23 1HS (01970) 617179**
**Email: property-sales@raw-rees.co.uk Website: www.raw-rees.co.uk**

**TROED Y RHIW, Y BORTH. SY24 5NR**

**MYNEDFA**
**CYNTEDD**

Mae drws UPVC gwyn â phanel gwydr yn mynd â ni i’r cyntedd.

**CYNTEDD**



**8’ 7” x 3’ 2”  (2.62m x .99m)**
Mae drysau’n arwain o’r cyntedd i’r ystafelloedd ffrynt. Grisiau i’r llawr cyntaf. Blwch ffiwsiau metel a mesurydd trydan wedi eu gosod ar y wal.

**LOLFA**



**15’ 2” x 10’ 4” (4.64m x 3.16m)**
Yn fewnosodedig ym mantell y simnai mae ffwrn aml-danwydd ar aelwyd lechfaen. Stôr-wresogydd nos. Ffenestr uPVC gwyn wedi ei gwydro’n ddwbl ar du blaen yr adeilad.

**SWYDDFA**



**12’ 1” x 6’1 1” (3.69m x 2.11m)**
Ffenestr uPVC gwyn wedi ei gwydro’n ddwbl ar du blaen yr adeilad. Drws pren â phaneli gwydr sy’n agor i fan storio cyfleus neu **BANTRI**.

**CEGIN**



**12’ 8” x 8’ 7” (3.88m x 2.64m)**
Gofod golau ac agored o dan nenfwd sy’n codi’n uwch ar un ochr. Unedeau gwaelod lliw hufen â thopiau gwaith pren. Unedau lliw hufen ar lefel y llygaid. Uned sinc o ddur di-staen â draeniwr sengl. Ffwrn ddwbl wedi ei hadeiladu i mewn a hob trydan. Gofod a phlymio i beiriant golchi. Gwresogydd dŵr o dan y sinc. Llawr finyl patrwm pren. Dwy ffenestr Velux yn y nenfwd a dwy ffenestr yn edrych dros yr ardd.

**YSTAFELL YMOLCHI**



**8’8” x 3’7” (3.66m x 1.10m)**
Swît ymolchi wen pedwar darn, sef bàth, ciwbicl cawod, basn golchi dwylo ar bedestal a thŷ bach dŵr. Rheilen dywelion wedi ei gwresogi. Ffenestr gefn wedi ei gwydro’n ddwbl a hefyd ffenestr Velux yn y nenfwd. Cwpwrdd crasu dillad ynghyd â silindr dŵr poeth. Llawr finyl patrwm pren.

**ARDAL AML-BWRPAS**

**12’ x 3’ 7” (3.66m x 1.10m)**
Ffenestr uPVC gwyn wedi ei gwydro’n ddwbl. Silffoedd wedi eu ffitio. Drws panelog uPVC gwyn i’r ardd. Llawr finyl patrwm pren.

**Y DRYDEDD YSTAFELL WELY**



**10’11” x 6’3” (3.34m x 1.93m)**
Ffenestri uPVC gwyn wedi eu gwydro’n ddwbl ar du blaen yr adeilad a hefyd ar yr ochr ogleddol. Stôr-wresogydd trydan wedi ei osod ar y wal.

**<u>Y LLAWR CYNTAF</u>**

**Y BRIF YSTAFELL WELY**



**16’ 9” x 11’ 1” (5.11m x 3.39m)**
Ffenestr uPVC gwyn wedi ei gwydro’n ddwbl ar du blaen yr adeilad. Ffenestr Velux yn y nenfwd. Mynedfa i’r groglofft. Stôr-wresogydd nos wedi ei osod ar y wal.

**YR AIL YSTAFELL WELY**



**16’ 6” x 9’ 11” (5.05m x 3.04m)**
Ffenestr uPVC gwyn wedi ei gwydro’n ddwbl . Stôr-wresogydd nos wedi ei osod ar y wal. Cwrpwrdd dillad a chwpwrdd storio dillad gwely wedi eu ffitio. Ail fynedfa i’r groglofft.

## Y TU ALLAN

Ardal goncrit uwchben lefel y ffordd o flaen y tŷ.

## PENTY/STORFA



**6’8” x 13’6” (2.03m x 4.11m)**
Dwy ffenestr uPVC gwyn wedi eu gwydro’n ddwbl. Drws â phanel gwydr yn y tu blaen. Golau trydan a phŵer.

Llidiart a llwybr concrit yn arwain i gefn y tŷ.

Grisiau’n arwain i lawnt gaeedig breifat ynghyd â gwelyau blodau. Man storio tanwydd o dan do y tu ôl i’r ystafell ymolchi. Storfa arall â tho plastig tryloyw.

## CABAN HAF



**10’ x 6’ 3” (3.05m x 1.91m)**
Drws uPVC gwyn wedi ei wydro’n ddwbl. Waliau wedi eu hinsiwleiddio. Ffenestri wedi eu gwydro’n ddwbl yn y tu blaen ac ar un ochr.

Y tu ôl i’r caban, man i barcio car, gyda’r hawl i’w gyrraedd drwy’r parc carafannau.

**GWASANAETHAU**

Trydan o'r prif gyflenwad, dŵr, draenio. Gwresogi Economy 7,


**TRETH Y CYNGOR**


Band 'C'

**YMWELD**

drwy swyddfa'r asiant:-
Jim Raw-Rees a'i Gwmni
1 Stryd Y Ffynnon Haearn
Aberystwyth
Ceredigion SY23 1HS
(10970) 617179
Ffôn ateb 24-awr

**PRIS:** **£249,995**









OnTheMarket.com
Zoopla
Smarter property search
rightmove
find your happy